Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Lleoliad Estynedig

## Manyleb y Rhaglen

Mae'r fersiwn hon o'r fanyleb yn berthnasol ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2026/27.

This document is also available in English |
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Cynnwys

1. Cyflwyniad ....... 3
2. Pwrpas y Rhaglen ....... 3
3. Trosolwg o'r Ddarpariaeth ....... 3
4. Cymhwystra Dysgwyr a Gofynion Mynediad ....... 3
5. Cynnwys y Rhaglen ....... 3
6. Gofynion Cyflwyno Data ....... 4
7. Monitro ac Archwilio ....... 5
8. Manylion Cyswllt ....... 6
9. Atodiadau ....... 7
    A. Cofnodi'r Profiad Gwaith ....... 7

## 1. Cyflwyniad

Mae Manyleb y Rhaglen hon yn amlinellu'r gofynion ar gyfer cyflwyno'r Rhaglen Lleoliad Estynedig. Mae'n rhoi trosolwg o ofynion y rhaglen, gan gynnwys cymhwysedd ac amodau mynediad dysgwyr; mae hefyd yn manylu ar y gofynion cyflwyno data er mwyn galluogi Medr i fonitro darpariaeth y rhaglen a deilliannau dysgu ar gyfer y Rhaglen.

Rhaid i'r Rhaglen Lleoliad Estynedig fodloni'r safonau a'r amodau a sefydlwyd o fewn y fframwaith rheoleiddio sy'n esblygu gan Medr, gan gynnwys y *Telerau ac Amodau Grant, Amodau Cofrestru, Y Fframwaith Ansawdd,* a'r *Cod Ymgysylltu â Dysgwyr.*

## 2. Pwrpas y Rhaglen

Prif nodau'r Rhaglenni Estynedig yw sicrhau bod dysgwyr:

- yn datblygu sgiliau'r gweithle a chyflogadwyedd sy'n bodloni anghenion cyflogwyr
- datblygu tystiolaeth ar gyfer CVs
- yn gallu cymhwyso eu gwybodaeth ymarferol a damcaniaethol
- yn cael cyfle i godi eu dyheadau a'u nodau gyrfa

## 3. Trosolwg o'r Ddarpariaeth

Rhaid cyflwyno'r rhaglen:

- yn ychwanegol at Raglen Maes Dysgu gyfredol amser llawn, a rhaid iddi fod yn ddewisol i ddysgwyr
- ochr yn ochr â rhaglenni amser llawn nad ydynt yn cynnwys profiad gwaith gorfodol yn rhan o'u Rhaglen Maes Dysgu / Cymhwyster
- gyda hyd at 100 awr o brofiad gwaith fesul dysgwr
- yn ddigon hyblyg i fodloni anghenion dysgwyr a cyflogwyr unigol

## 4. Cymhwystra Dysgwyr a Gofynion Mynediad

I fod yn gymwys i gael mynediad i'r rhaglen rhaid i ddysgwr fod yn 16 oed neu'n hŷn ar 31 Awst, yn syth cyn dechrau'r rhaglen.

Sylwer bod Medr hefyd yn disgwyl rhoi blaenoriaeth, yn y lle cyntaf, i'r dysgwyr hynny sydd rhwng 16 ac 18 oed ar 31 Awst, yn syth cyn dechrau'r rhaglen[1].

## 5. Cynnwys y Rhaglen

Rhaglen blwyddyn o hyd yw'r Rhaglen Lleoliad Estynedig. Mae'n galluogi cysylltu lleoliad gwaith ag unrhyw raglen academaidd neu alwedigaethol amser llawn nad oes ganddynt

[1] Ystyrir bod dysgwr yn 18 oed tan ddiwedd y flwyddyn academaidd sy'n cynnwys ei ben-blwydd yn bedair ar bymtheg. Mae'r diffiniad hwn yn sicrhau nad yw cyllid dysgwr 16 i 18 oed yn newid yn ystod rhaglen unigolyn os yw'r dysgwr yn troi'n 19 oed yn ystod blwyddyn academaidd.

brofiad gwaith gorfodol ar hyn o bryd, gan ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd ymhellach, a helpu i godi dyheadau a chefnogi nodau gyrfa.

Ar gyfer y lleoliadau gwaith, disgwylir i ddarparwyr weithio gyda chyflogwyr i ddarparu profiad gwaith ystyrlon ac ymarferol i ddysgwyr. Gellir cwblhau'r elfen hon o'r rhaglen y tu allan i amser tymor neu yn ystod hanner tymor.

Rhaid i'r Rhaglen gynnwys o leiaf un lleoliad gwaith gyda chyflogwr nad yw'n eiddo rhannol na llwyr i'r Darparydd, lle gall dysgwyr gael rôl benodol, datblygu eu sgiliau ymarferol a chael profiad o weithredu busnes o ddydd i ddydd.

Dim ond fel dewis olaf y dylid defnyddio Amgylchedd Gwaith Realistig (RWE) sy'n seiliedig ar ddarparydd ac ni ddylai gyfrif am fwy na 25% o gyfanswm yr oriau. Sylwch y gall defnyddio RWE gael effaith andwyol ar ddilyniant dysgwyr, gan fod adborth o'r diwydiant yn dangos bod lleoliad mewn Amgylchedd Gwaith Gwirioneddol yn fwy manteisiol i ddysgwyr sy'n ceisio symud ymlaen i gyflogaeth neu brentisiaeth.

Gall prosiectau a gyflawnir ar ran cleientiaid/ sefydliadau allanol yng ngweithdai'r coleg gyfrif tuag at yr oriau lleoliad gwaith ar yr amod nad ydynt yn ystod yr oriau addysgu sydd wedi'u hamserlennu ar gyfer y gwersi, a bod y cyflogwr sy'n cydgysylltu'r lleoliad gwaith hefyd yn bresennol. Sylwch hefyd nad yw gweithio ochr yn ochr â thechnegwyr mewnol y coleg i wasanaethu, glanhau a chynnal a chadw cyfarpar yn cyfrif tuag at y cwota lleoliad gwaith.

Rhaid i ddarparwyr sicrhau bod trefniadau ar waith i oruchwylio unrhyw leoliadau gwaith; gan gynnwys asesiadau iechyd a diogelwch a risg cyfredol.

## 6. Gofynion Cyflwyno Data

Bydd Medr yn defnyddio data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) / Casgliad Data Ôl-16 i fonitro darpariaeth y rhaglen ar gyfer y Rhaglen Lleoliad Estynedig.

Yn unol â'r amodau a nodir yn y Telerau ac Amodau Cyllido, rhaid i ddarparwyr sicrhau y cyflwynir data yn brydlon ac yn y fformat cywir.

Llawlyfr Cymorth Defnyddwyr LLWR[2] a'r Casgliad Data Ôl-16[3] yn nodi'r canllawiau y dylai darparwyr eu dilyn wrth gyflwyno data ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol.

Dylid defnyddio'r codau rhaglen canlynol (LP74) ar gyfer dysgwyr ar y Rhaglenni Lleoliad Estynedig:

| | |
|---|---|
| 8800AXXP | Rhaglen Lleoliad Estynedig (Peilot)[4] |
| 8800F01P | Rhaglen Lleoliad Estynedig (Lefel 1 am 100 awr) |
| 8800F02P | Rhaglen Lleoliad Estynedig (Lefel 2 am 100 awr) |
| 8800F03P | Rhaglen Lleoliad Estynedig (Lefel 3 am 100 awr) |
| 8800G01P | Rhaglen Lleoliad Estynedig (Lefel 1 ar ôl 50 awr) |
| 8800G02P | Rhaglen Lleoliad Estynedig (Lefel 2 ar ôl 50 awr) |

[2]Gweler Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR).
[3]Gweler Casgliad data ôl-16
[4] Ar gyfer dysgwyr sydd wedi cofrestru ar raglenni Lefel Mynediad amser llawn.

| | |
|---|---|
| 8800G03P | Rhaglen Lleoliad Estynedig (Lefel 3 ar ôl 50 awr) |
| 8800H01P | Rhaglen Lleoliad Estynedig (Lefel 1 ar ôl 25 awr) |
| 8800H02P | Rhaglen Lleoliad Estynedig (Lefel 2 ar ôl 25 awr) |
| 8800H02P | Rhaglen Lleoliad Estynedig (Lefel 3 ar ôl 25 awr) |

Bydd Medr yn defnyddio'r wybodaeth a gyflwynir drwy'r meysydd LLWR*LP12 (Enw'r Cyflogwr)* a *LP13 (Cod Post y Cyflogwr)* i fonitro'r gofyniad hwn, felly rhaid i ddarparwyr sicrhau bod data wedi'u cwblhau mewn modd amserol ar gyfer pob dysgwr.

Rydym yn sylweddoli na fydd rhai dysgwyr wedi'u cysylltu â chyflogwr nac wedi sefydlu lleoliad gwaith ar ddechrau'r rhaglen, felly disgwylir i'r manylion perthnasol gael eu llenwi cyn gynted ag y bo gwybodaeth y cyflogwr yn hysbys, a thra bo'r dysgwr yn dal ar y rhaglen.

Rhaid i ddarparwyr hefyd sicrhau bod unrhyw oriau a dreulir ar leoliad gwaith gyda chyflogwr yn cael eu cofnodi gan ddefnyddio'r meysydd LLWR canlynol:

- *LP70 (Amcangyfrif o Oriau Seiliedig ar Waith)*; ac
- *LP72 (Oriau Seiliedig ar Waith Gwirioneddol)*.

## 7. Monitro ac Archwilio

Bydd monitro ac archwilio yn cyfrannu at sicrhau bod y canllawiau'n cael eu cymhwyso mewn modd cyson ac yn helpu i asesu a yw polisïau, gweithdrefnau a rheolaethau'n ddigonol.

Canolbwyntir ar y meysydd canlynol wrth fonitro:

- cydymffurfio â manylebau'r rhaglen; ac
- deilliannau dysgu'r  rhaglen.

Cyflawnir hyn drwy gyfuniad o fonitro yn ystod y flwyddyn a monitro ar ddiwedd y flwyddyn; ymarfer paru data; a phrofion archwilio manwl o ddysgwyr ar Raglenni Lleoliad Estynedig.

Bydd Medr yn defnyddio data LLWR / Casgliadau Data Ôl-16 i fonitro cydymffurfiaeth â manyleb y rhaglen. Bydd hyn yn cynnwys:

- monitro lleoliadau gwaith dysgwyr yn rheolaidd drwy ddefnyddio data *LP12, LP13, LP70, LP72*; ac
- monitro data o setiau data'r rhaglen a'r gweithgarwch i wirio bod gofynion darparu yn cael eu bodloni.

Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n llwyddo i gwblhau eu Rhaglen Maes Dysgu a'r Rhaglen Lleoliad Estynedig ychwanegol yn symud ymlaen i'r cam nesaf o ran addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Yn ogystal â'r dull monitro a nodir uchod, bydd yr holl ddata a ddychwelir gan y Sefydliadau Addysg Bellach yn ddarostyngedig i ofynion archwilio diwedd blwyddyn presennol, [5]*Nodiadau Canllaw i Archwilwyr* er mwyn sicrhau bod archwilwyr allanol yn cymryd samplau priodol o ddysgwyr sy'n dilyn Rhaglenni Lleoliad Estynedig.

[5] Cyhoeddir y gofynion archwilio ar gyfer y flwyddyn gyfredol ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

## 8. Manylion Cyswllt

Ar gyfer unrhyw ymholiadau'n gysylltiedig â chynnwys y Fanyleb Rhaglen hon, cysylltwch â: buddsoddiadamonitro@medr.cymru.

## 9. Atodiadau

### *A. Cofnodi'r Profiad Gwaith*[6]

| Rhaglen Lleoliad Estynedig – Cynllun Lleoliad Gwaith | |
|---|---|
| **Enw'r Dysgwr:** | |
| **Cymhwyster/cymwysterau a gyflawnir:** | |
| **Enw'r Cyflogwr:** | |
| **Cyfeiriad y lleoliad gwaith:** | |
| **Natur y busnes:** | |
| **Enw'r sawl y bydd y dysgwr yn adrodd iddo:** | |
| **Presenoldeb a gynllunnir:** | |
| **Ymweliadau monitro wedi'u cynllunio gan y tiwtor:** | |

**Yr wyf yn cytuno â'r Cynllun Lleoliad Gwaith uchod:**

| | | |
|---|---|---|
| Llofnodwyd gan y Dysgwr:<br>……………………………<br>Enw'r Dysgwr:<br>……………..…………………<br>Dyddiad:<br>………………………………… | Llofnodwyd gan y Tiwtor:<br>……………………………<br>Enw'r Tiwtor:<br>……………………………<br>Dyddiad:<br>………………………………… | Llofnodwyd ar ran y Cyflogwr:<br>…………………………...<br>Swydd yn y cwmni:<br>…………………………...<br>Dyddiad:<br>…………………………... |

[6] DS: Dim ond awgrym yw hwn o'r templed ar gyfer y Cynllun Lleoliad Gwaith.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**